Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

## Ymarfer Hap Samplu'r

## Panel Craffu

# Adolygiad o Achosion Troseddau Cyllyll

## Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel

**Ebrill 2023**

## Cynnwys

1.0 Trosolwg ........................................ **Error! Bookmark not defined.**

2.0 Cefndir, diben a methodoleg ........................................ 2

3.0 Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel ... **Error! Bookmark not defined.**

4.0 Camau gweithredu a gymerwyd yn dilyn cyfarfod diwethaf y panel... **Error! Bookmark not defined.**

5.0 Meysydd ar gyfer gwelliant ........................................ 3

6.0 Ystyriaeth o achosion troseddau cyllyll – drwgdybiedigion ifainc................ 3

7.0 Ystyriaeth o achosion troseddau cyllyll – drwgdybiedigion sy'n oedolion ...... 6

8.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn ........................................ 8

9.0 Ethnigrwydd a Rhyw ........................................ 12

10.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol ........................................ 12

## 1.0 Trosolwg

Ar 24 Ebrill 2023, daeth yr Aelodau i gyfarfod Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys Dyfed-Powys. Adolygodd yr Aelodau ddetholiad o achosion troseddau cyllyll a gyflanwyd gan bobl ifainc ac oedolion, yr ymdriniwyd â hwy drwy Warediad y Tu Allan i'r Llys. Ystyriodd y Panel gyfanswm o 18 achos, gyda 9 yn cynnwys drwgdybiedigion ifainc a 9 yn cynnwys oedolion.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn rhithwir drwy'r rhaglen *Microsoft Teams*.

## 2.0 Cefndir, diben, a methodoleg

Gyda'i gilydd, mae Aelodau'r Panel yn cytuno ar faes ffocws ar gyfer pob cyfarfod. Maent yn derbyn ffeiliau achos perthnasol bythefnos cyn pob cyfarfod sydd wedi'u dewis ar hap gan Gadeirydd y Panel. Yna bydd y Panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle y bo'n bosibl, dod i gasgliad ynghylch priodoldeb y gwaredu**. Wrth benderfynu ar hyn, mae'r Panel yn ystyried y meini prawf canlynol:**

- Barn ac adborth y dioddefwr a'r troseddwr.
- Cydymffurfio â pholisi'r heddlu.
- Y rhesymeg dros y penderfyniad a'r canlyniad.
- Effaith bosibl ar y gymuned.
- Amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd.
- Dewisiadau amgen posibl a allai fod wedi bod ar gael.

Mae'r Panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:

- Defnydd priodol sy'n gyson â pholisi.
- Defnydd priodol gydag amheuon Aelodau'r Panel.
- Defnydd amhriodol neu anghyson â pholisi.
- Panel yn methu â dod i gasgliad.

## 3.0 Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel

Rydw i _David Evans___ (eich enw mewn print bras) yn gallu cadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llawn y safbwyntiau a fynegwyd gan y Panel yn ystod ein hymarfer hap samplu dyddiedig 24 Ebrill 2023.

Llofnod: __David Evans__

Dyddiad: _24/07/23____

## 4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod diwethaf y panel

O ganlyniad i waith y Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys, mae'r camau canlynol wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf:

- Cymerwyd cam gweithredu yn y cyfarfod diwethaf i anfon neges atgoffa at swyddogion mewn perthynas â chyhoeddi Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys priodol. Hysbyswyd y Panel bod y mater wedi'i godi yn y cyfarfod Safonau Ymchwiliadau diweddar.

- Cymerwyd cam gweithredu yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr i anfon neges atgoffa at swyddogion mewn perthynas â rhybuddion ar gyfer achosion cyffuriau sy'n mynd yn erbyn y polisi. Hysbyswyd y Panel bod y mater wedi'i godi yn y cyfarfod Safonau Ymchwiliadau diweddar.

## 5.0 Meysydd ar gyfer gwelliant

Nodwyd y maes canlynol i'w wella o ganlyniad i waith y Panel y chwarter hwn:

- Mae angen sicrhau bod swyddogion o'r rheng briodol yn awdurdodi achosion Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys.

## 6.0 Ystyriaeth o achosion troseddau cyllyll – drwgdybiedigion ifainc

Ystyriwyd naw achos troseddau cyllyll. Ymdriniwyd â'r achosion drwy ddau Rybudd Ieuenctid, chwe Datrysiad Cymunedol ac un Gwarediad Adferol Ieuenctid.

| Asesiad yr aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 6 |
| Amhriodol | 3 |

Manylir ar sylwadau Aelodau'r Panel isod.

**Achos 1**

Canfu cyllell ym meddiant y drwgdybyn ar fws ysgol. Yr oedd wedi'i defnyddio i fygwth disgybl arall. Rhoddwyd Datrysiad Cymunedol Ieuenctid iddo. Cytunodd aelodau'r panel bod yr achos hwn yn arddangos y defnydd priodol a'i fod yn gyson â'r polisi. Nododd yr aelodau Panel fod ymchwiliad manwl wedi'i nodi, a bod proses drylwyr wedi'i dilyn.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 2**

Ar ôl cael ei stopio a'i chwilio, daethpwyd o hyd i gyllell grefft â llafn 3 modfedd ym meddiant y troseddwr honedig. Rhoddwyd Datrysiad Cymunedol Ieuenctid i'r unigolyn. Cytunodd yr aelodau mai hwn oedd y cam gweithredu priodol. Nododd yr aelodau panel yr ymchwiliad trylwyr gan Heddlu Dyfed-Powys, a bod y canlyniad fel y disgwyliwyd. Nodwyd bod gan y drwgdybyn nifer o anghenion diogelu, a phwysleisiwyd pwysigrwydd cefnogi unigolion fel hyn. Gan hynny, teimlwyd bod Gwarediad y Tu Allan i'r Llys yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 3**

Aeth y drwgdybyn â chyllell 25cm i'r ysgol. Rhoddwyd Gwarediad y Tu Allan i'r Llys i'r drwgdybyn. Cytunodd yr aelodau panel bod y Gwarediad y Tu Allan i'r Llys a orchmynnwyd yn amhriodol. Nododd yr aelodau panel bryderon gan nad Gwarediad Adferol Ieuenctid oedd y gwarediad priodol i'w gyhoeddi ar gyfer trosedd cyllyll gan fod hyn yn groes i'r polisi. Nododd yr aelodau panel bryderon ynghylch bregusrwydd y drwgdybyn a'r diffyg gwybodaeth a ddarparwyd.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 4**

Canfuwyd eitem â llafn ym meddiant y drwgdybyn pan adroddodd aelod o'r cyhoedd fod unigolyn ifanc yn cario twca. Rhoddwyd Datrysiad Cymunedol Ieuenctid i'r unigolyn. Cytunodd yr aelodau panel fod hyn yn ddefnydd amhriodol o Warediad y Tu Allan i'r Llys. Nododd yr aelodau panel fod gan y drwgdybyn ddigwyddiadau blaenorol mewn perthynas â throseddau cyllyll, gan awgrymu y dylai'r achos hwn fod wedi'i farnu mewn llys. Nododd yr aelodau hefyd bod yr heddlu wedi dod o hyd i'r gyllell yn nhrwser y drwgdybyn, felly gellid fod wedi ystyried bod y drwgdybyn yn ceisio cuddio'r gyllell.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 5**

Canfu bod y troseddwr honedig wedi dod â chyllell i'r ysgol. Ni wnaed unrhyw fygythiadau, a dywedodd y troseddwr bod y gyllell ar gyfer niweidio ei hun gan ei bod hi'n cael ei bwlio. Rhoddwyd Datrysiad Cymunedol Ieuenctid i'r troseddwr honedig. Nododd yr aelodau panel y pryderon dros les y troseddwr honedig, ond dywedon nhw fod y Gwarediad y Tu Allan i'r Llys yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 6**

Postiodd y troseddwr honedig ddelweddau o gyllell ar *Snapchat* a rhoddwyd Rhybudd Ieuenctid iddo. Cytunodd yr aelodau panel fod hyn yn ddefnydd amhriodol o'r Gwarediad y Tu Allan i'r Llys gan fod euogfarnau blaenorol gan y troseddwr honedig mewn perthynas ag arfau. Roedd yr aelodau panel yn poeni y dylai'r achos hwn fod wedi'i ddwyn i'r llys oherwydd diddordeb y troseddwr honedig mewn cyllyll a drylliau. Gofynnodd yr aelodau panel am i ffeil yr unigolyn gael ei farcio fel bod unrhyw droseddau yn y dyfodol yn cael eu cymryd i'r llys gan mai hwn oedd ail dro'r troseddwr drwy'r swyddfa.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

| |
|---|
| **Cam Gweithredu 1:**<br><br>**Marcio Achos Ieuenctid 6 fel bod unrhyw droseddau yn y dyfodol yn cael eu dwyn i'r llys.** |

**Achos 7**

Canfu cyllell ym meddiant y drwgdybyn wrth ei chwilio a rhoddwyd Datrysiad Cymunedol Ieuenctid iddo. Cytunodd yr aelodau panel fod y Gwarediad y Tu Allan i'r Llys hwn yn briodol. Nododd aelodau'r panel fod cymorth wedi'i roi a bod y drwgdybyn wedi'i gyfeirio at asiantaethau cefnogol. Nododd yr aelodau panel y pryderon diogelu, ond ystyriwyd bod y cynllun cefnogol a gyhoeddwyd yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 8**

Gwelwyd cyllell glec ym meddiant y drwgdybyn a rhoddwyd Rhybudd Ieuenctid iddi. Cytunodd yr aelodau panel fod hyn yn ddefnydd priodol o Warediad y Tu Allan i'r Llys gan nad oedd unrhyw euogfarnau blaenorol gan y drwgdybyn ac ni wnaeth unrhyw fygythiadau pan oedd y gyllell yn ei meddiant. Roedd aelodau'r panel yn fodlon â'r cynllun a roddwyd ar waith. Mynegwyd pryderon ynghylch y modd hwylus y gall unigolion brynu cyllyll clec gan fod aelodau wedi canfod bod masnachwyr ar-lein megis Amazon yn gwerthu amrediad ehangach o gyllyll. Awgrymodd yr aelodau panel y dylid dwyn y mater y sylw'r Prif Gwnstabl.

**Asesiad y Panel: Priodol**

| |
|---|
| **Cam Gweithredu 2:**<br><br>**Dwyn pryderon mewn perthynas â hwylustod prynu cyllyll i sylw'r Prif Gwnstabl.** |

**Achos 9**

Canfu bod cyllell ym mhoced y drwgdybyn ar ôl iddo gael ei stopio a'i chwilio wedi iddo redeg i ffwrdd wrth yr Heddlu mewn perthynas â moped wedi'i ddwyn. Rhoddwyd Datrysiad Cymunedol Ieuenctid i'r drwgdybyn. Cytunodd yr aelodau panel fod hyn yn ddefnydd priodol o Warediad y Tu Allan i'r Llys.

**Asesiad y Panel: Priodol**

## 7.0 Ystyriaeth o achosion troseddau cyllyll – drwgdybiedigion sy'n oedolion

Ystyriodd yr aelodau panel naw achos. Ymdriniwyd ag un achos drwy Rybudd Amodol, ac wyth drwy Ddatrysiad Cymunedol.

Roedd asesiadau'r aelodau fel a ganlyn:

| Asesiad yr aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 7 |
| Priodol gydag amheuon | 1 |
| Amhriodol | 1 |

**Achos 10**

Roedd y drwgdybyn wedi tynnu cyllell o'i drwser a'i chwifio mewn modd bygythiol tuag at aelod o'r cyhoedd. Daeth aelodau'r panel i'r casgliad bod hwn yn ddefnydd amhriodol o Waredïad y Tu Allan i'r Llys gan fod y drwgdybyn yn bygwth aelodau o'r cyhoedd. Nododd aelodau'r panel eu pryderon fod rhingyll wedi awdurdodi'r gwarediad pan ddylai arolygydd fod wedi gwneud hyn.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 11**

Canfuwyd cyllell ym meddiant y drwgdybyn pan gafodd ei chwilio o dan y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau. Cytunodd y panel fod hwn yn ddefnydd priodol o Ddatrysiad Cymunedol Oedolion. Nododd aelodau'r panel sut oedd y gyllell wedi'i lapio fel pe bai newydd ei phrynu, gan holi pa un ai a allai fod wedi bod ar gyfer dibenion gwaith.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 12**

Canfuwyd bod cyllell Stanley ym meddiant y troseddwr honedig mewn man cyhoeddus. Cytunodd aelodau'r panel fod y Datrysiad Cymunedol Oedolyn yn briodol gan nad oedd unrhyw euogfarnau blaenorol gan y drwgdybyn ac nid oedd yn ymddwyn yn fygythiol nac yn ymosodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 13**

Canfuwyd cyllell boced lafnog ym meddiant y troseddwr honedig. Cytunodd yr aelodau panel fod hyn yn ddefnydd priodol o Ddatrysiad Cymunedol Oedolyn. Holodd yr aelodau panel pam fod yr unigolyn wedi'i stopio a'i chwilio, gan nodi nad oedd unrhyw ffactorau gwaethygol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 14**

Roedd y drwgdybyn, a oedd yn ddigartref, wedi mynd i'r llys, ond anghofiodd fod cyllell yn ei bag. Cytunodd y panel fod hwn yn ddefnydd priodol o Ddatrysiad Cymunedol Oedolyn. Nododd aelodau'r panel amgylchiadau presennol yr unigolyn ac y gallai'r gyllell fod wedi'i defnyddio ar gyfer dibenion coginio.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 15**

Canfuwyd cyllell Stanley tu mewn i'r drws ar ochr y gyrrwr heb esgus rhesymol. Cytunodd y panel fod cyhoeddi Datrysiad Cymunedol Oedolyn yn ddefnydd priodol o'r Gwarediad y Tu Allan i'r Llys. Nododd yr aelodau panel nad oedd gan y drwgdybyn unrhyw euogfarnau blaenorol ac nad oedd yn ei defnyddio mewn modd bygythiol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 16**

Canfuwyd cyllell Stanley ym meddiant y drwgdybyn yn ystod gweithdrefn stopio a chwilio. Nododd yr aelodau panel nad oedd y drwgdybyn wedi bod yn defnyddio'r gyllell mewn modd bygythiol, ond holasant pam yr oedd cyllell wedi'i chanfod ym meddiant y drwgdybyn am 2 o'r gloch y bore. Daeth yr aelodau panel i'r casgliad fod hwn yn ddefnydd priodol o'r Datrysiad Cymunedol Oedolyn.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 17**

Wrth gynnal chwiliad ar gyfer materion anghysylltiedig, canfuwyd cyllell glöyn byw yn ystafell wely’r drwgdybyn. Nododd yr aelodau panel fod y gyllell wedi’i chanfod mewn eiddo preifat heb unrhyw fygythiadau nac amgylchiadau difrïolach. Cytunodd yr aelodau panel fod hyn yn ddefnydd priodol o’r Datrysiad Cymunedol Oedolyn.

**Asesiad y Panel: Priodol**


**Achos 18**

Canfuwyd bod cyllell fawr ym meddiant y drwgdybyn. Cytunodd yr Aelodau Panel fod hyn yn ddefnydd priodol o’r Datrysiad Cymunedol Oedolyn, ond nodasant eu hamheuon. Nododd yr aelodau panel fod yr achos hwn yn argyfwng iechyd meddwl, gan gwestiynau’r achos gan fod y gyllell wedi’i hildio.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

## 8.0 Asesiadau’r Panel hyd yn hyn

Mae'r siart isod yn dangos asesiad y Panel o'r achosion troseddau cyllyll a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf:






Ers mis Tachwedd 2013, mae'r Panel wedi ystyried amrywiaeth o warediadau, fel y dangosir yn y graff isod.


O'r 547 o achosion a archwiliwyd rhwng mis Ebrill 2013 a mis Ebrill 2023, aseswyd bod 57% yn briodol, 20% yn amhriodol ac 19% yn briodol gydag amheuon. Methodd y panel â dod i gasgliad mewn 2% o achosion.

Mae'r newid mewn casgliadau a gyrhaeddwyd dros amser i'w weld yn y graff isod:


Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad yn ôl math o drosedd fel canran o achosion a ystyriwyd rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Ebrill 2023.




Panel assessment over time
(Covering offences Nov-2013 - April-2023)
100%
90%
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
Nov 2013 - Oct 2022
Appropriate
Appropriate with Reservations
Inappropriate
Panel Fails to Reach Conclusion



Panel assessment by crime type
Nov 2013 - Apr 2023
Possession of Controlled Drugs (Cannabis)
Knife crime
Theft
Violence with injury
Sexual offence
Criminal Damage
Public order
Domestic
Drug offence
Burglary
Assault with Injury
Assault on a constable
Common Assault
Violence against Women and Girls
Hate
Hate Crime
Stalking and Harassment
Firearms
Fraud
Violence without injury
Vehicle offences
Offensive weapon
Covid19 related
OTHDRUGPOSS
Other
Appropriate
Appropriate with Reservations
Inappropriate
Panel Fails to Reach Conclusion

Mae'r graff canlynol yn dangos nifer wirioneddol yr achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y Panel dilynol yn eu cyfarfodydd rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Ebrill 2023.



## 9.0 Ethnigrwydd a Rhyw

Mae'r siart canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran eu rhyw:




Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran ethnigrwydd.

| Ethnigrwydd a Nodwyd | Hunanasesiad y Drwgdybyn | Asesiad y Swyddog |
|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | 15 | 0 |
| Gwyn – Gogledd Ewrop | 0 | 15 |
| Cymysg - Gwyn a Du Caribïaidd | 1 | 0 |
| Anhysbys | 1 | 1 |
| Du Prydeinig | 1 | 2 |

Ni nodwyd unrhyw faterion cydraddoldeb hiliol na rhyw fel rhan o adolygiad y Panel.

## 10.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol

Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y Panel yr hoffent ganolbwyntio ar droseddau yn erbyn gweithwyr brys, ymosodiadau cyffredin ac ymosodiadau gydag anaf yn y cyfarfod nesaf.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r ffordd y mae'r Heddlu'n penderfynu pryd i gyhoeddi Gwarediad y Tu Allan i'r Llys. Gofynnwyd am i'r matrics a ddefnyddir gael ei rannu ag aelodau'r panel.

**Cam Gweithredu 3 :**

**Rhannu copi o fatrics yr Heddlu sy’n pennu pryd y dylid cyhoeddi Gwarediad y Tu Allan i’r Llys â’r Aelodau Panel.**